

Cofadeiladau Campus



Ffocws y Pwnc

Nodweddion deunyddiau a chreigiau a'r newidiadau ynddynt, a gweithio'n wyddonol.

Crynodeb

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn ymchwilio i'r dreftadaeth adeiledig mewn safle claddu, o gerrig beddau a chofadeiladau i eglwysi a phyrth mynwentydd. Maent yn annog plant i edrych yn fanwl ar nodweddion o wneuthuriad dyn, yn ogystal ag ymchwilio i'r ystod amrywiol o ddeunyddiau sydd wedi'u canfod a'u defnyddio mewn safleoedd claddu. Mae'r gweithgareddau'n edrych yn fanwl ar greigiau drwy archwilio gwaith carreg y strwythurau adeiledig ac annog plant i freinio eu sgiliau arsylwi a chofnodi.

Dyma'r gweithgareddau: Creigiau Daearegol, Deunyddiau Defnyddiol, Cofgolofnau Rhyfel a Beddau Rhyfel.

CSBC, CA1 a CA2

Sgiliau Allweddol

Ymchwilio

Cymharu

Gwrthgyferbynnu

Arsylwi

Esbonio

Archwilio

Geiriau Allweddol

Nodweddion

Carreg

Craig

Deunyddiau

Cysylltiadau Cwricwlwm

Mae'r pwnc hwn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion mewn Gwyddoniaeth a Hanes.

CSBC

Deall y Byd

Pobl a chymunedau

Celf a Dylunio Mynegiannol

Archwilio a defnyddio deunyddiau



Dyfarniad John Muir

Darganfod

Archwilio

Gwarchod

Rhannu



Nid yw'r adran hon yn cyd-fynd yn uniongyrchol â gwaith am fathodynau ond mae'n rhoi dimensiwn ychwanegol i Sul y Cofio a chanmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Deunyddiau Defnyddiol

Mae'r gweithgaredd yma'n gyfle i blant edrych ar yr ystod o ddeunyddiau sydd i'w cael mewn safle claddu, eu nodweddion a sut mae'r deunyddiau'n cael eu defnyddio.

Canlyniadau Dysgu

Bydd y plant yn gwneud y canlynol:

- Enwi ystod o ddeunyddiau cyffredin
- Datgan bod posib defnyddio'r un deunydd i wneud gwrthrychau gwahanol
- Cydnabod nodweddion deunyddiau, fel caledi, cryfder a hyblygrwydd, a chymharu deunyddiau ar sail y nodweddion hyn

Adnoddau

Fflachlamp, chwyddwydr, lens llaw, camera, deunyddiau tynnu llun.

Grid Deunyddiau Defnyddiol

Paratoi

Bydd rhaid i chi archwilio eich safle claddu lleol i leoli'r gwahanol ddeunyddiau y mae'r plant yn debygol o ddod o hyd iddynt.

Cwestiwn Allweddol

O beth mae wedi cael ei wneud? Pam cafodd y deunydd hwn ei ddefnyddio tybed?

Syniadau ar gyfer Gweithgareddau

1. **RWY'N GWELD GYDA'N LLYGAID BACHI - Deunyddiau**

2. **Adnabod deunyddiau** – mae'r plant yn gweithio mewn grwpiau i adnabod y gwahanol ddeunyddiau sydd i'w canfod mewn safle claddu, fel carreg, metel, coed, gwydr, plastig. Pan mae'r plant wedi adnabod deunydd e.e. pren, dylent ei archwilio'n ofalus i weld pa nodweddion sy'n perthyn iddo ac i gofnodi eu darganfyddiadau'n ofalus ar y **grid deunyddiau defnyddiol**.

Sesiwn i Bawb

Pa ddeunydd welsoch chi lawer o enghreifftiau ohono? Pam?


Yn Ôl yn yr Ysgol

Rhowch y deunyddiau mewn gwahanol grwpiau. Gall y plant ddewis sut maent am eu grwpio.



Deunyddiau Defnyddiol

Gwrthrych	Deunydd	Nodweddion	Gwybodaeth Ychwanegol	O Wneuthuriad Dyn neu Naturiol



**Beth yw
pwrpas pob
gwrthrych?**